

# Manifesto ar gyfer amgueddfeydd yng Nghymru

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol mewn cymdeithas ac maent yn ganolbwynt i'w cymunedau lleol. Ers datganoli maent wedi cefnogi amcanion hanfodol Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, megis cefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol; cyfrannu at wella iechyd a lles; mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol; a hefyd dod â manteision cymdeithasol ac economaidd di-ri i'n cenedl. Mae amgueddfeydd yn ganolog i'r ymgyrch dros ddemocratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol ledled Cymru, ac maent yn flaengar o ran y gwaith hwn. Dangoswyd hyn gan y ffaith bod Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru wedi ei henwi'n Amgueddfa'r Flwyddyn gan y Gronfa Gelf yn 2019, a bod Canolfan Dylan Thomas wedi ennill gwobr Amgueddfeydd yn Newid Bywydau am y project bach gorau yn 2020.

Mae llymder, Brexit a'r pandemig wedi rhannu cymunedau ac effeithio ar ein hamgueddfeydd. Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen amgueddfeydd a'u casgliadau ar bobl i helpu i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas a rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu, ymgysylltu a llunio eu dyfodol. Yn ystod argyfwng Covid-19 mae amgueddfeydd wedi cefnogi cymunedau drwy fentrau cynhwysol fel Celf mewn Ysbytai; Ystafelloedd Dosbarth Rhithwir; gweithgareddau i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu hynysu yn ystod cyfnodau clo; a thrwy weithio gyda chymunedau i brosesu a chynrychioli eu profiadau o'r pandemig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. [Cliciwch yma](#) i ddysgu mwy am sut mae amgueddfeydd wedi gweithio gyda'u cymunedau.

Fodd bynnag, fel y canfu'r Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru (2015), a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, bu tanfuddsoddi hanesyddol mewn amgueddfeydd sydd wedi arwain at leihad mewn gwasanaethau. Mae perygl na fydd rhai amgueddfeydd bellach yn gallu goroesi colli mwy o incwm oherwydd llai o ymwelwyr, cyfnodau clo pellach, a llymder.

Mae amgueddfeydd yng Nghymru yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan eu cymunedau ond hefyd yn fregus tu hwnt. Rydym yn gofyn i wleidyddion ddychmygu'r hyn y gellid ei gyflawni gyda swm cymharol fechan o fuddsoddiad i sicrhau dyfodol diwylliannol a chreadigol y genedl.

Wrth i ni ailadeiladu ein cymdeithas bydd gan amgueddfeydd rôl unigryw, gan gynnwys:

- cefnogi cymunedau lleol
- meithrin balchder dinesig mewn llefydd, hunaniaeth a'r amgylchedd
- adfywio'r economi leol a chenedlaethol
- codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth a phwysigrwydd straeon holl gymunedau Cymru i'n hanes fel cenedl

- datblygu profiadau ac adnoddau dysgu cyfranogol ar gyfer y cwricwlwm newydd
- meithrin iechyd a lles corfforol a meddyliol
- mynd i'r afael â thlodi a chreu cyfleoedd i'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais economaidd a chymdeithasol
- annog twristiaeth werdd a 'gwylliau gartref' yng Nghymru drwy sicrhau bod gan ardaloedd lleol gynnig amrywiol i ddenu twristiaid domestig ledled y wlad
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r argyfwng hinsawdd, a'r camau y gallwn ni gyd eu cymryd fel dinasyddion i gyflawni newid
- cefnogi twf y Gymraeg, yn unol â Cymraeg 2050.

Drwy weithio gyda'u cymunedau amrywiol, bydd amgueddfeydd yn gallu sicrhau manteision cymdeithasol pendant a chyfrannu at adferiad cynaliadwy a diwylliannol y genedl. Ond er mwyn cyflawni hyn mae angen arweiniad strategol gan Lywodraeth Cymru a buddsoddiad yn y meysydd canlynol.

- Strategaeth Ddiwylliannol newydd uchelgeisiol i Gymru: fframwaith cenedlaethol i sicrhau bod amgueddfeydd, gan weithio ochr yn ochr â'r celfyddydau, sefydliadau amgylcheddol a'r sectorau chwaraeon a thwristiaeth, yn cefnogi'r Wladwriaeth Les yng Nghymru ac yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o wella ac adfer y genedl.
- Meithrin gallu: Buddsoddi mewn Is-adran Amgueddfeydd, Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd (MAALD) gref, arbenigol a llawn staff, gyda buddsoddiad ychwanegol mewn capasiti ar gyfer Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru, er mwyn iddynt allu cydweithio i ddatblygu seilwaith cenedlaethol amgueddfeydd.
- Gweithredu argymhellion Adolygiad Arbenigol Llywodraeth Cymru o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru gan gynnwys:
  - y gwaith rhanbarthol i ddarparu gwasanaethau'n lleol, a gyflawnir drwy sefydlu nifer fach o gyrff rhanbarthol;
  - y cynlluniau ar gyfer casgliad cenedlaethol ar wasgar;
  - canolbwyntio gwariant cyfalaf ar sicrhau y gall ein hamgueddfeydd lleol weithio gyda'u cymunedau lleol a'u croesawu fel manau dinesig ffyniannus lle gall pawb ddefnyddio a mwynhau casgliadau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Seilwaith digidol, capasiti a datblygu sgiliau. Yn ystod y cyfnodau clo mae amgueddfeydd ledled Cymru wedi ymgysylltu â chymunedau, ar-lein ac yn uniongyrchol, gan gefnogi dysgu yn y cartref a darparu adnoddau i gefnogi teuluoedd a chymunedau. Bydd cydlynu buddsoddiad mewn seilwaith a sgiliau digidol yn galluogi amgueddfeydd i greu model hybrid cynaliadwy o ddigwyddiadau, rhaglennu ac ymgysylltu go iawn ac ar-lein ar gyfer y dyfodol.
- Ariannu Gŵyl Amgueddfeydd Cymru: denu ymwelwyr yn ôl i amgueddfeydd a chefnogi twristiaeth ddomestig.
- Parhau i gefnogi mynediad am ddim i holl amgueddfeydd cenedlaethol Cymru.